



Cyfarfod

**PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI**

Date and Time

**6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 22AIN MAWRTH, 2016**

Lleoliad

**Ystafell Gyfarfod, Frondeg, Pwllheli, LL53 5RE.**

Pwynt Cyswllt

**Bethan Adams**

**01286 679020**

**[BethanAdams@gwynedd.gov.uk](mailto:BethanAdams@gwynedd.gov.uk)**

(DISTRIBUTED 15/3/16)

## **AELODAETH:**

### **Cyngor Gwynedd:**

Cynghorydd Michael Sol Owen  
Cynghorydd Peter Read  
Cynghorydd Hefin Underwood

Aelod Lleol  
Aelod Lleol Abererch  
Aelod Lleol

### **Aelodau Cyfetholedig:**

Rod Green

Stephen Tudor  
David Dewsbury

Wil Partington

Andrew Picken  
Cynghorydd Mici Plwm  
Clive Moore

Cynrychioli Cymdeithas Cychwyr Pwllheli a'r  
Cylch  
Cynrychioli Clwb Hwyllo Pwllheli  
Cynrychioli Cymdeithas Cychod Hafan  
Pwllheli  
Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr  
Morwrol Pwllheli  
Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli  
Cynrychioli Cyngor Tref Pwllheli  
Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli

### **Sylwedyddion:**

Cynghorydd David Richardson  
Gethin Glyn Williams  
Dr John Jones-Morris

Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi  
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw  
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw brys ym marn y Cadeirydd.

## 4. COFNODION

1 - 3

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2015, fel rhai cywir.

## 5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

4 - 20

Cyflwyno adroddiad ysgrifenedig gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.

## 6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 18 Hydref 2016.

---

## PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 20/10/15

---

**Presennol:** Y Cynghorydd Michael Sol Owen (Cadeirydd)

David Dewsbury (Cymdeithas Cychod Harbwr Pwllheli), W. A. Partington (Cymdeithas Masnachwyr Morwrol), Cynghorydd Mici Plwm (Cyngor Tref Pwllheli), Alwyn Roberts (Sefydliad y Bad Achub) a Stephen Tudor (Clwb Hwyllo Pwllheli).

**Hefyd yn bresennol:** Barry Davies (Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig), Llŷr B. Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned), Wil Williams (Rheolwr Harbwr Pwllheli) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Peter Read (Cyngor Gwynedd), Clive Moore (Sefydliad y Bad Achub), Andrew Picken (Siambwr Fasnach Pwllheli) a'r Cynghorydd Mandy Williams-Davies (Aelod Cabinet – Economi).

### 1. CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Michael Sol Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2015/16.**

### 2. TEYRNGED

Talwyd teyrnged gan y Cadeirydd i'r diweddar Gynghorydd Robert J. Wright.

Safodd yr aelodau fel arwydd o barch.

### 3. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ail-ethol y Cynghorydd Peter Read yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2015/16.**

### 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol a gynhaliwyd ar 31 Mawrth, 2015 fel rhai cywir.

### 6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Tywysodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yr aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Bod lleihad yn y nifer o angorfeydd blynyddol o gymharu â 2014, oedd yn adlewyrchu'r economi ehangach;
- O ran y Cod Diogelwch Morwrol, y byddai'r Uwch Swyddog Harbyrau yn ei adolygu cyn i'r awdurdod annibynnol a benodwyd, sef Harbwr Caernarfon ei archwilio. Nodwyd bod y Cod yn rhoi arweiniad ac yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod diogelwch defnyddwyr yn bwysig i'r Cyngor;
- Y gwerthfawrogir sylwadau ar gynnwys y Cod gan yr aelodau;
- Bod y gwasanaeth yn awyddus i ddatblygu Mesuryddion Perfformiad mewn perthynas â rheolaeth yr harbyrau ac y gwahoddir syniadau neu awgrymiadau cychwynnol gan yr aelodau;

- Cyfeiriwyd at absenoldeb aelod o staff oherwydd salwch a nodwyd bod Cymorthyddion Harbwr yn llenwi'r bwlch er ceisio sicrhau gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer defnyddwyr;
- Bod oedi o ran symud y deunydd a garthwyd yn yr Harbwr oherwydd y disgwylir am gadarnhad o gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Nodwyd y gobeithir cwblhau'r gwaith erbyn diwedd Mawrth 2016;
- Ystyrir neilltuo cyllid o £50,000 yn flynyddol ar gyfer gwneud gwaith carthu yng Nghog yr Harbwr a gobeithir gwneud y gwaith blwyddyn nesaf, yr un adeg a symud y deunydd a garthwyd yn yr Harbwr;
- Manylwyd ar gyfrifon 2014-15 yr Harbwr a'r Hafan;
- Bwriedir cynyddu ffioedd yr Hafan ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 yn unol â chwyddiant a rhewi ffioedd yr Harbwr Allanol er mwyn annog unigolion i gymryd angorfa;
- Bod pryderon o ran diogelwch a chostau cynnal offer rheoli cwch yr harbwr ac asesir opsiynau o ran ei newid;
- Yn dilyn derbyn pryderon o ran ansawdd y disel coch a ddarperir yn yr Harbwr gan Gymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli, nodwyd bod ymholiadau wedi ei gwneud yn y Pwyllgorau Harbwr eraill a chafwyd cadarnhad eu bod yn fodlon efo ansawdd y disel coch. Ychwanegwyd y parheir i fonitro'r sefyllfa;
- Gwneir gwaith i leihau'r bwnd a diffinio llwybr cyhoeddus wrth ymyl Plas Heli gan osod ffens o ran diogelwch. Ymgynghorwyd efo Swyddog Llwybrau'r Cyngor a oedd yn gefnogol i'r bwriad;
- Aseswyd opsiynau talu ar gyfer defnyddwyr yr Harbwr a ffafrir *Standing Order* yn hytrach na Debyd Uniongyrchol. Nodwyd yr edrychir ar yr opsiwn o dalu *Standing Order* dros gyfnod o 12 mis yn hytrach na 7 mis os arwyddir cytundeb cyn canol mis Chwefror.

Tynnodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig sylw at fwiau parth cyflymder uchaf ar draeth Marian y De a gofynnodd am farn yr aelodau o ran eu tynnu. Nododd yr aelodau y dylid eu cadw i sicrhau diogelwch defnyddwyr.

Gofynnwyd yn ogystal i'r aelodau am eu barn o ran addasu ardal parth cyflymder uchaf ardal traeth Glandon er hwyluso gweithgareddau hamdden. Nododd yr aelodau bod angen bod yn ofalus o ran diogelwch defnyddwyr a dylid ystyried y posibilrwydd o greu ardaloedd nofio dynodedig.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn gwneud gwaith ymchwil o ran opsiynau addasu parth cyflymder uchaf ardal traeth Glandon ac adrodd ar y mater yn y cyfarfod nesaf.**

Manylodd Rheolwr Harbwr Pwllheli ar y rhaglen waith cynnal a chadw a gofynnwyd i aelodau hysbysu'r gwasanaeth o unrhyw waith arall sydd angen ei wneud.

Gofynnwyd am farn yr aelodau o ran symud angorfeydd yr harbwr allanol o ardal 5 i 6 i ardal 7 yn wyneb y ffaith bod yr ardal wedi cau i fyny yn sylweddol a'r costau o ran eu cynnal a chadw. Nodwyd y byddai symud yr angorfeydd yn cynyddu lled y sianel.

Nododd cynrychiolydd Cymdeithas Cychod Hafan Pwllheli y dylid rhoi amser i aelodau drafod y mater efo'u mudiadau.

**PENDERFYNWYD bod mudiadau unigol yn cysylltu efo'r Gwasanaeth Morwrol cyn 31 Rhagfyr 2015 i roi eu barn cyn y symudir ymlaen efo'r cynllun.**

Yn ystod y cyfarfod ymatebwyd i sylwadau'r aelodau gan y swyddogion fel a ganlyn:

- O ran gwaddod yn cynyddu yn fynedfa'r Harbwr, nodwyd bod banc yn ffurfio tua allan i'r fynedfa ac asesir y sefyllfa gan fyddai'n bosib i'r gwaddod symud yn ddibynnol ar y tywydd;
- Bod nifer isel o unigolion yn cael trafferth i ddod i mewn i'r Harbwr;

- Mewn ymateb i sylw gan aelod bod golau diogelwch cwmni *Blue Water Marine* yn gallu dallu unigolion yn ceisio dod i mewn i'r Harbwr, gofynnwyd i gynrychiolydd Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli drosglwyddo'r neges i'r cwmni a chyflwyno sylwadau yn y cyfarfod nesaf;
- Yr edrychir i mewn i gostau uwch yng nghyswllt nwy a thrydan yn yr Hafan;
- Ychwanegir colofn i'r adroddiadau cyllidol er mwyn cynnwys ffigyrau'r flwyddyn ariannol flaenorol yn y dyfodol;
- Er ceisio denu mwy o unigolion yr ystyrir llunio pecynnau arbennig.

Rhodddwyd diweddariad ar weithgareddau a gynhaliwyd ym Mhlas Heli ers ei agoriad gan gynrychiolydd Clwb Hwyllo Pwllheli, sef:

- Optimist European Championships,
- Optimist UK Championship,
- 29er UK Championship,
- 29er World Championships,
- Fireball World Championships,
- IRC Welsh National Championships.

Diolchwyd a llongyfarchwyd cynrychiolydd Clwb Hwyllo Pwllheli a'r holl staff am eu gwaith a llwyddiant y gweithgareddau.

Adroddodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned yn dilyn cyflwyno sylwadau a wnaed gan yr aelodau yn y gweithdy lle ystyriwyd y Strategaeth Garthu drafft i gwmni *ARUP Associates*, bod gwaith asesu effaith wedi ei baratoi. Nodwyd bod trafodaethau yn parhau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac edrychir ar sefydlu hawliau awdurdod harbwr rhag gorfod llenwi ffurflenni cais am hawliau unigol.

Ychwanegwyd y cynhelir cyfarfod efo cwmni *ARUP Associates* yr wythnos nesaf ac y cylchredir yr adroddiad terfynol i aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol.

## 7. ETHOL SYLWEDYDDION

Adroddwyd bod angen ethol sylwedydd/ion i wasanaethu ar Bwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, Abermaw a Porthmadog.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Michael Sol Owen i wasanaethu fel sylwedydd ar Bwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, Abermaw a Porthmadog.**

## 8. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 22 Mawrth, 2016.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.30pm a daeth i ben am 6.50pm

---

CADEIRYDD

# Eitem 5

<b>CYFARFOD</b>	<b>Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>22 Mawrth 2016</b>
<b>TEITL</b>	<b>Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr</b>
<b>AWDUR</b>	<b>Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig</b>

## 1. Cyflwyniad

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried a chynghori ar faterion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr harbwr.
- 1.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno diweddariad cryno o'r cyfnod hyd at Hydref 2015 hyd at Mawrth 2016

## 2. Angorfeydd Cyffredin

- 2.1 Yn dilyn trafodaeth ym mis Hydref 2015 gofynir am sylwadau'r Pwyllgor ar drefniant cynnal a chadw angorfeydd ol a blaen yn yr harbwr allannol. Amcangyfrif bydd gwir gost cynnal a chadw'r angorfeydd oddeutu 10K. Rhagwelir bydd yn bosibl angori cychod ar yr angorfeydd hyd at ddiwedd Hydref 2016.

## 3. Cod Diogelwch Morwrol

- 3.1 Mae copi o'r Cod Diogelwch Morwrol eisoes wedi ei ddsbarthu ac mae ar gael ar safle we Cyngor Gwynedd. Mae yn bwysig nodi fod gan y Pwyllgor y cyfle i gyflwyno sylwadau ar y Cod ac i gyflwyno sylwadau yn rheolaidd ar faterion iechyd a diogelwch yr harbwr.
- 3.2 Mae'r ddogfen yn cael ei adolygu yn rheolaidd ac fe werthfawrogir unrhyw sylwadau ar y Cod cyfredol gan Aelodau o'r Pwyllgor. Rhagwelir bydd archwiliwr o'r adran polisi Asiantaeth Gwylwyr y Glannau yn ymweld a Chyngor Gwynedd yn ystod yr Hydref er archwilio'r Cod cyfredol ac i gynghori ar unrhyw welliannau.

## 4. Mesuryddion Perfformiad

- 4.1 Mae'r Gwasanaeth yn gweithio tuag at datblygu Mesuryddion Perfformiad mewn perthynas â rheolaeth yr harbyrau a thraethau. Bydd drafft cychwynnol o'r mesuryddion perfformiad yn cael eu dosbarthu yn y cyfarfod er derbyn sylwadau'r Pwyllgor ar y mesuryddion.
- 4.2 Pwrpas mesuryddion o'r fath yw er mesur a monitro deilliannau'r gwasanaeth a gynigir. Wrth lunio mesuryddion o'r fath, bydd y gwasanaeth yn sicrhau fod unrhyw wybodaeth neu ddata yn gyfredol; yn berthnasol; ac yn addas a chlr i'w craffu. Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau Ty'r Drindod o'r bwriad i geiso cydymffurfio gyda'r gofynion pan yn bosibl.

## 5. Prif Faterion

### 5.1 Mordwyo

- 5.1.1 Cafwyd archwiliad gan Awdurdod Goleudai Ty'r Drindod ar y 24ain Chwefror 2016. Mae adroddiad Ty'r Drindod yn tynnu sylw at ddiffyg y gwasanaeth i gydymffurfio a gofynion 'Panar' ac yn tynnu sylw fod angen caniatad Ty'r Drindod cyn newid lleoliad cymhorthyddion mordwyo.

5.1.2 Nid oes Rhybudd i Forwyr mewn grym yn harbwr Pwllheli. Mae holl gymhorthion mordwyo ar eu safle priodol. Yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Harbwr ym mis Hydref 2016 cytunwyd ar leoliadau y bwiau parth Cyflymder Uchaf a chadarnhawyd bod angen parhau i gynnal bwiau ar draeth Marian y De yn 2016. Cytunwyd bod angen addasu bwiau parth cyflymder uchaf ardal Glandon er adlewyrchu'r gweithgareddau sydd yn cael eu cynnal yn yr ardal hon o harbwr Pwllheli.

## **5.2** Cynnal a chadw

5.2.1 Bydd y Rheolwr yr Harbwr yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Pwllheli a'r Hafan yn ystod y cyfnod Ionawr – Mawrth. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried yn ystod tymor yr haf eleni.

## **5.3** Materion Staff

5.3.1 Mae trefniadau adolygol a strwythur staff harbwr Pwllheli yn parhau. Yn dilyn llwyddiant yr ad drefniant rhagwelir bydd y trefniant yn parhau at y dyfodol. Fe fydd gwybodaeth ychwanegol ynglyn a trefniant a strwythur staff yn cael ei drafod yn y cyfarfod.

## **5.4** Materion Eraill

5.4.1 Trefniant carthu ceg yr harbwr a lefelu gwely'r sianel – gwanwyn 2016. Mae cwch y 'Seiont ll' weid gweithio yn yr harbwr yn lefelu gwely'r sianel am 4 diwrnod. Mae cwch yr 'Afon Cefni' yn ymweld ar y 21ain Chwefror am bedwar diwrnod er carthu gwely'r sianel a mynediad i'r harbwr ymhellach.

5.4.2 Mae'r Strategaeth Carthu terfynnol ar gyfer harbwr Pwllheli wedi ei gyflwyno i'r Cyngor gan yr ymgynghorwyr. Rhagwelir bydd yn bosibl dosbarthu copïau yn y cyfarfod.

5.4.3 Cludo defnydd carthu i Carreg y Defaid. Amcangyfirf a chrynodeb bras ar y gwaith diweddar - roedd 80K tunnell dywod mewn stoc. Mae 60K tunnell wedi ei gludo i Carreg y Defaid. Mae 20K tunnell wedi ei garthu o geg yr harbwr.

5.4.4 Asesiad OPRC (cynllun atal llygredd olew)

5.4.5 Adolygu trefniant angorfeydd harbwr allanol

5.4.6 Ymgynghoriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru ar fater cadwraeth – Atodiadau ynglwm

## **6. Materion Ariannol**

**6.1** Mae crynodeb o gyllidebau'r Harbwr a Hafan hyd at y 29ain Chwefror 2016 wedi ei gynnwys yn yr atodiadau.

**6.2** Atodir gopiïau ffioedd a thaliadau'r Harbwr Allanol a Hafan 2016/17 wedi eu atodi.

**6.3** Yn ystod y cyfnod, bu'n ofynnol i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -

- Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
- Lefelu a charthu harbwr
- Cynnal a chadw angorfeydd Ardal 5 a 6
- Cynnal a chadw cyffredinnol
- Cysgodfan a Pont Droed Cei Gogledd (cyllideb 2016/17)




## **7. Digwyddiadau**

- 7.1** Bydd rhestr digwyddiadau Plas Heli ar gyfer Haf 2016 yn cael eu dosbarthu gan gynrychiolydd Plas Heli yn y cyfarfod.

## **8. Materion eraill**

- 8.1.1 Craen symudol-ystyried gwaredu
- 8.1.2 Llwybrau Cyhoeddus tir Hafan
- 8.1.3 Maes Parcio Traeth Glandon
- 8.1.4 Teledu Cylch Gyfyng – Mae amcan bris £2,900 wedi ei dderbyn am gamerau a sgrin newydd ar gyfer gwella diogelwch eiddo a diogelwch cychod yn yr Harbwr Allannol
- 8.1.5 Cofrestru Cychod Pwer a Badau Dwr Personol a fu yn cael eu lansio drwy drefniant cwmnïau masnachol ardal Penrhyn Glandon



19 Ionawr 2016

Annwyl Syr/Fadam

**YMGYNGHORIAD AR ARDALOEDD CADWRAETH ARBENNIG ARFAETHEDIG AR  
GYFER LLAMHIDYDDION YR HARBWR AC ARDALOEDD GWARCHODAETH  
ARBENNIG ARFAETHEDIG NEWYDD AC ESTYNEDIG AR GYFER ADAR Y MÔR**

Mae nifer o ardaloedd môr o amgylch Cymru dan ystyriaeth fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) arfaethedig ar gyfer llamhidyddion yr harbwr ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) arfaethedig ar gyfer nifer o rywogaethau o adar y môr.

Ardaloedd o dir neu fôr yw ACA ac AGA y nodwyd eu bod o bwysigrwydd Ewropeaidd ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth. O dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rhywogaethau'r UE 1992, a Chyfarwyddeb Adar Gwyllt yr UE 2009, mae'n ofynnol i bob aelod-wladwriaeth UE ddynodi ACA ac AGA a rhoi mesurau ar waith i sicrhau cadwraeth y cynefinoedd a'r rhywogaethau mae'r safleoedd wedi'i dynodi ar eu cyfer.

Fel rhywun a allai fod â diddordeb yn yr ardaloedd dan sylw, rydym yn ysgrifennu atoch i'ch gwahodd i ymateb i'r ymgynghoriad trwy ddweud eich barn wrthym. Rydym yn ymgynghori ar chwe chynigiad:

- ACA bosibl North Anglesey Marine / Gogledd Môn Forol;
- ACA bosibl West Wales Marine / Gorllewin Cymru Forol;
- ACA bosibl Bristol Channel Approaches / Dynesfeydd Môr Hafren;
- AGA arfaethedig Angelsey Terns / Morwenoliaid Ynys Môn (estyniad arfaethedig i AGA Ynys Feurig, Cemlyn Bay and The Skerries sydd eisoes yn bodoli);
- AGA arfaethedig Northern Cardigan Bay /Gogledd Bae Ceredigion.
- AGA arfaethedig Skomer, Skokholm and the Seas off Pembrokeshire / Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro (estyniad arfaethedig i AGA Skokholm and Skomer sydd eisoes yn bodoli).

Mae manylion llawn pob un o'r cynigion hyn ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru: [www.cyfoethnaturiol.cymru/mn2k](http://www.cyfoethnaturiol.cymru/mn2k). Ar ddiwedd y llythyr hwn, ceir map crynodeb sy'n dangos lleoliad yr ardaloedd.

Ymhlith y wybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan mae papur ymgynghoriad sy'n esbonio'n llawn ynglŷn â beth mae'r ymgynghoriad a sut i ymateb iddo, a mapiau manwl o ffiniau pob safle arfaethedig. Rydym hefyd wedi manylu ar y rhesymau pam ein bod yn ystyried bod yr ardaloedd hyn yn gymwys i'w dynodi fel ACA a AGA, ac rydym wedi darparu rhai

cwestiynau ac atebion ac amrywiaeth o wybodaeth dechnegol gefnogol arall, gan gynnwys amcanion cadwraeth drafft ar gyfer y safleoedd ac asesiadau o'u heffaith reoliadol bosibl.

Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu a ddylid dynodi ACA a AGA yng Nghymru a dyfroedd glannau Cymru, a hyd yma ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniadau o'r fath mewn perthynas â'r safleoedd hyn. Rydym yn cynnal yr ymgynghoriad hwn ar ran Llywodraeth Cymru a byddwn yn adrodd iddynt ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. Wrth wneud hyn, byddwn yn ystyried holl ymatebion yr ymgynghoriad a dderbyniwyd, ond sylwch dim ond ystyriaethau gwyddonol perthnasol y gall Gweinidogion eu hystyried wrth benderfynu a ddylid dynodi ACA ac AGA ai peidio. Gall gwybodaeth a barn ar ystyriaethau economaidd a chymdeithasol helpu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol am sut ddylid rheoli'r ardaloedd, ond ni allant ddylanwadu ar benderfyniadau o ran dynodi ACA ac AGA neu bennu eu ffiniau.

Mae rhai o'r safleoedd hyn yn gorwedd yn rhannol yn nyfroedd tiriogaethol Cymru ac yn rhannol yn nyfroedd alltraeth y DU y tu hwnt i'r terfyn Môr Tiriogaethol 12 môr-filltir. Llywodraeth y DU a'r Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur y DU (JNCC) sydd yn gyfrifol am safleoedd yn nyfroedd alltraeth y DU. Mae CNC a JNCC yn cyd-weithio ar y safleoedd hyn, ac felly adroddir ar yr ymgynghoriad ar y cyd i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Efallai y byddwch hefyd yn derbyn gohebiaeth oddi wrth y JNCC ynglŷn ag ardaloedd arfaethedig eraill yn nyfroedd Lloegr, Gogledd Iwerddon, a dyfroedd alltraeth y DU, ond rydym wedi ceisio osgoi dyblygu gymaint â phosibl. **Mae'r papur ymgynghori ar wefan CNC yn cynnwys manylion llawn am sut i ymateb a ble i anfon eich ymateb. Sylwch nad oes angen ymateb i CNC yn ogystal â'r JNCC ynghylch unrhyw un o'r safleoedd uchod, oherwydd bydd y ddau sefydliad yn cydweithio'n agos, a chydag asiantaethau cadwraeth statudol eraill y DU, i adolygu ymatebion yr ymgynghoriad a pharatoi ein hadroddiadau i'r Llywodraeth.**

Os hoffech gopïau papur o unrhyw rai o'r dogfennau ymgynghori ar ein gwefan, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau cychwynnol ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn, anfonwch neges e-bost i [morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:morol.n2k@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) neu ffoniwch 0300 065 3000. Hefyd mae croeso i chi gysylltu â'ch swyddfa CNC leol.

Mae'n rhaid i ymatebion i'r ymgynghoriad fod yn ysgrifenedig, a gallant fod yn Gymraeg neu Saesneg. Y ffordd orau i ymateb yw trwy ddefnyddion ein ffurflen ymateb ar-lein syml (gan ddilyn y ddolen o dudalen yr ymgynghoriad ar ein gwefan) Mae'r ffurflen ar-lein yn caniatáu i chi ddarparu ymateb cryno, neu ymateb yn fanwl i gwestiynau'r ymgynghoriad, gan gynnwys atodi dogfennau ychwanegol os bydd angen. Os na allwch ymateb arlein, gallwch ymateb trwy e-bost neu trwy lythyr i'r cyfeiriad ar frig y llythyr hwn.

Mae'n rhaid derbyn pob ymateb i'r ymgynghoriad erbyn hanner nos **Ebrill 2016 ar yr hwyr**, y dyddiad pan ddaw'r cyfnod ymgynghori i ben.

**Er budd tryloywder a gweithredu agored, sylwch y gall pob ymateb i'r ymgynghoriad hwn ynghyd ag enwau'r holl ymatebwyr (ond nid eu cyfeiriadau neu unrhyw wybodaeth bersonol arall) fod ar gael i unrhyw aelod o'r cyhoedd ar gais, ac efallai gael eu cyhoeddi, yn rhannol neu'n llawn, gan gynnwys ar wefan CNC a/neu wefan**


JNCC. Bydd yr holl wybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn unol â gofynion y Ddeddf Diogelu Data. Os na dymunwch i'ch enw na'ch barn ar y cynigion ACA neu AGA hyn fod yn gyhoeddus, cynghorir chi i beidio ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Wrth ymateb, peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol am eich hun neu bobl eraill yng nghorff eich sylwadau.

Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthyhch.

Yn gywir



Ceri Davies  
Cyfarwyddwr Gweithredol - Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio



<b>Morwrol a Pharciau</b>							
<b>DG52-Pwllheli</b>		<b>Diwedd Chwefror 2016</b>					
<b>Grwp</b>	<b>Cyfrif</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Cyllideb 2</b>	<b>Addasiad</b>	<b>Cyllideb 1</b>	<b>Gwariant</b>	<b>Gweddill</b>
Cyflogau	5716	Costau Staff	31,440	0	31,440	23,321.64	-8,118.36
Eiddo	1000	Cynnal a Chadw	14,470	0	14,470	-6,258.17	-20,728.17
Trafnidiaeth	2100	Trafnidiaeth	570	0	570	0.00	-570.00
Cyflenwadau	3100	Offer a Chelfi	7,110	150	7,260	22,616.13	15,356.13
Cyfanswm Gwariant		Gwariant	53,590	150	53,740	39,679.60	-14,060.40
Incwm	8231	Angorfeydd Parhaol	-59,630	0	-59,630	-58,991.81	638.19
	8232	Angorfeydd I Ymwelwyr	-480	0	-480	80.81	560.81
	8234	Lansio Cwch Power	-9,950	0	-9,950	0.00	9,950.00
	8235	Ffioedd Gaeafu	-250	0	-250	0.00	250.00
	8690	Rhenti - Tir/Adeiladau/Cyff.	-9,260	0	-9,260	0.00	9,260.00
		Incwm	-79,570	0	-79,570	-58,911.00	20,659.00
Cyfanswm		Cyfanswm	-25980	150	-25,830	-19,231.40	6,598.60

<b>Morwrol a Pharciau</b>							
<b>DG51-Hafan</b>		<b>Diwedd Chwefror 2016</b>					
<b>Grwp</b>	<b>Cyfrif</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Cyllideb 2</b>	<b>Addasiad</b>	<b>Cyllideb 1</b>	<b>Gwariant</b>	<b>Gweddill</b>
Cyflogau	5716	Costau Staff	262,180	0	262,180	235,810.04	-26,369.96
Eiddo	1000	Cynnal a Chadw	418,790	0	418,790	343,282.26	-75,507.74
Trafnidiaeth	2100	Trafnidiaeth	8,800	0	8,800	6,009.12	-2,790.88
Cyflenwadau	3100	Offer a Chelfi	81,600	3,180	84,780	60,673.59	-24,106.41
Cyfanswm Gwariant		Gwariant	771,370	3,180	774,550	645,775.01	-128,774.99
Tud Incwm 12	7960	Llogi/Gwerthu Cyfarpar (Taw)	-130,570	0	-130,570	-78,428.76	52,141.24
	7983	Gwerthu-Petrol/Diesel	-27,280	0	-27,280	-22,528.81	4,751.19
	7985	Gwerthiannau Eraill	-8,130	0	-8,130	-3,371.02	4,758.98
	7994	Gwerthu - Tocynnau Trydan	-50,130	0	-50,130	-37,424.23	12,705.77
	8231	Angorfeydd Parhaol	-1,011,970	0	-1,011,970	-890,406.18	121,563.82
	8232	Angorfeydd I Ymwelwyr	0	0	0	-90,420.23	-90,420.23
	8234	Lansio Cwch Power	-11,620	0	-11,620	-12,175.48	-555.48
	8235	Ffioedd Gaeafu	-44,090	0	-44,090	-41,110.44	2,979.56
	8262	Incwm Arall (Cynnwys Taw)	-20,600	0	-20,600	-2,389.23	18,210.77
	8690	Rhenti - Tir/Adeiladau/Cyff.	-11,600	0	-11,600	-24,292.26	-12,692.26
		Incwm	-1,315,990	0	-1,315,990	-1,202,546.64	113,443.36
Cyfanswm		Cyfanswm	-544620	3180	-541,440	-556,739.14	-15,299.14

## Ffioedd - Harbwr Allanol Pwllheli Outer Harbour -Fees – 2016/17

<b>Disgrifiad</b> Eithrio TAW (20%)	Ffi leol Local Fee 2015/16 (1%)	Eraill Other 2014-15 (1%)	Ffi leol Local Fee 2016-17 (0%)	Eraill Other 2016-17 (0%)	<b>Description</b> Not including VAT (20%)
<b>Ffi angorfa fesul medr</b>					<b>Mooring per meter</b>
<b>Ardal 1</b> – Rhif Angorfa 01	52.96	71.58	52.96	71.58	<b>Area 1</b> – Mooring Numbers 01
<b>Ardal 2</b> – Rhif Angorfa 01- 13	65.05	86.97	65.05	86.97	<b>Area 2</b> – Mooring Numbers 01- 13
<b>Ardal 3</b> - Rhif Angorfa 13 -34 (Ileiaf hyd 7m)	124.27	134.38	124.27	134.38	<b>Area 3</b> – Mooring Numbers 13- 34 (min 7m)
<b>Ardal 3</b> – Rhif Angorfa 13 – 34 (Pysgotwyr Llawn amser yn unig)	66.89	120.93	66.89	120.93	<b>Area 3</b> - Mooring Numbers 13 -34 (Full time Fishermen only)
<b>Ardal 4</b> – Rhif Angorfa 01–10	14.71	15.36	14.71	15.36	<b>Area 4</b> – Mooring Numbers 01–10
<b>Ardal 5</b> – Rhif Angorfa 01–09	69.93	94.56	69.93	94.56	<b>Area 5</b> – Mooring Numbers 01–09
<b>Ardal 6</b> – Rhif Angorfa 01- 09	64.96	87.80	64.96	87.80	<b>Area 6</b> – Mooring Numbers 01- 09
<b>Ardal 7</b> – Rhif Angorfa 01- 32	64.96	87.80	64.96	87.80	<b>Area 7</b> – Mooring Numbers 01- 32
<b>Cwch Ymwelwyr - Dyddiol neu ran o ddydd</b>					<b>Visiting vessels</b>
Cwsmeriaid Harbwr/Marina Gwynedd – fesul diwrnod	5.15	5.15	5.15	5.15	Gwynedd Harbour Mooring/Marina Clients – per day
Pob Cwch Ymweld Arall– fesul diwrnod	6.43	6.43	6.43	6.43	All Other Visiting Vessels – per day
<b>Gaeafu cwch yr wythnos neu wythnos - fesul medr - 01 Hydref – 31 Mawrth</b>	6.20	6.20	6.20	6.20	<b>Winter storage per week or part of week - per meter- 01 October – 31 March</b>
Wall yr Harbwr Llwytho/dadlwytho neu aros dros nos - fesul medr	2.19	2.19	2.19	2.19	Quay Wall Unloading/Loading or overnight stay - per metre
<b>Compownd Diogel (llai 40% pysgotwyr Bona fida cofrestredig llawn amser yn unig-gwelir diffiniad)</b>	677.54	684.33	677.54	684.33	<b>Secure Compound (less 40% for registered Bona fida full time fishermen only-see definition)</b>
Gaeafu ar angorfa yn yr Harbwr - 01 Hydref - 31 Mawrth. Fesul wythnos neu ran o wythnos	14.09	14.24	14.09	14.24	Vessels on winter moorings - 01 October – 31 March. Per week part of week

Compound-discount applied to bona fida fishermen with annual mooring in Pwllheli. Compound License Holder must also be the skipper of the Fishing Vessel.



## Ffioedd - Hafan Pwllheli - Fees – 2016/17

<b>Eithrio TAW</b>	<b>2014/15 £</b>	<b>2015/16 £</b>	<b>2016/17 £</b>	<b>Excluding VAT</b>
<b>Angorfa Pontŵn Blwyddyn fesul medr (lleiafswm 7m)</b> Blynyddol mewn 1 taliad (heb drydan) Blynyddol mewn 10 rhandal (heb drydan) Trydan fesul medr Blynyddol mewn 1 taliad (gyda thrydan) Blynyddol mewn 10 rhandal (gyda thrydan) +10% i gychod masnachol di breswyl yng Ngwynedd	298.76 322.66 13.39 312.15 337.11	301.75 325.89 13.52 315.27 340.48	304.76 320.00 14.70 319.46 334.16	<b>Annual pontoon berthing per m (min 7m up to 10m)</b> Paid in 1 instalment (without electricity) Paid in 10 instalments (without electricity) +5% Electricity per metre +5% Paid in 1 instalment (including electricity) Paid in 10 instalments (including electricity) +5% +10% for commercial vessels-non resident in Gwynedd
<b>Safle Blynyddol Cwch Dydd (mwyafrif 8m)</b> <b>Taliad sefydlog</b> Fynnu hyd at 8m D01 – D50	1495.92	1510.88	1510.88	<b>Annual Day boat (max 8m)</b> Up to 8m (Fixed charge) D01 – D50
<b>Blynyddol Cwch Dydd mewn 10 rhandal</b> Fynnu hyd at 8m D01 – D52	1615.60	1631.76	1586.42	<b>Annual Day boat paid in 10 instalments</b> Up to 8m +5% D01 – D52
<b>Ymwelwyr</b> Amsodur byr (uchafswm 4 awr) tal sefydlog-pob cwch cynnwys cychod siarter Trosdos fesul medr - lleiafswm 7m yn Wythnosol fesul medr (leiafswm o 5 noson i dderbyn) Gaeaf fesul mis fesul medr (1 Hydref i 31 Mawrth) Fesul mis Dalwyr Angorfa Cyngor Gwynedd yn unig (01 Hydref – 31 Mawrth yn unig)	10.94 2.04 12.50 17.71 61.20	11.05 2.06 12.63 17.89 61.81	11.16 2.06 12.63 17.89 61.81	<b>Visitor Berthing</b> Short stay-load/unload (max 4 hrs) fixed charge-all vessels  Overnight per m - min 7m inc Charter vessels Weekly per mt (min 5 nights stay to qualify) Winter Per mt per calendar month (01 October – 31 March only) Per calendar month Gwynedd Council Mooring Holders only (01 October – 31 March only)
<b>Trydan (pontŵn)</b> Cynnal a chadw blynyddol ac unedau ar dal wedi eu hysbysebu	Cynwysedig Included	Cynwysedig Included	Cynwysedig Included	<b>Electricity (pontoons)</b> Annual maintenance charge plus units at advertised unit rate
<b>Cwch yr Hafan</b> Fesul awr Lleiafswm	35.32 35.32	35.67 35.67	36.03 36.03	<b>Marina Launch</b> Charge per hour Minimum charge
<b>Llafur</b> Fesul awr	29.81	30.11	30.41	<b>Labour</b> per hour
<b>Ymholiadau Datgan Diddordeb Angorfa</b>	83.33	83.33	83.33	<b>Berth Expression of Interest</b>

## Ffioedd - Hafan Pwllheli - Fees – 2016/17

<b>Prisiau yn eithrio TAW</b>	<b>2014/15</b> £	<b>2015/16</b> £	<b>2016/17</b> £	<b>Prices exclude VAT</b>
<b>Peiriant codi cychod- fesul medr</b> Codi Allan / Codi-Dal-Lansio i fyny i 7m 7.1m i 9m 9.1m i 10m 10.1m i 11m 11.1m i 12m 12.1m i 15m Dros 15m <b>Lansio yn unig</b> i fyny at 7m 7.1m at 9m 9.1m at 10m 10.1m at 11m 11.1m at 12m 12.1m i 15m Dros 15m Symud Cwch yn yr Iard fesul medr Scrwb amser cinio wedi ei disgowntio -10% ar bob pris uchod i gychod masnachol	12.72 15.60 16.25 16.56 17.02 18.20 29.58 11.76 14.42 15.03 15.32 15.75 16.83 26.62 6.89 9.07	12.85 15.76 16.41 16.72 17.19 18.38 29.88 11.88 14.56 15.18 15.47 15.91 17.00 26.89 6.96 9.16	12.85 15.76 16.41 16.72 17.19 18.38 29.88 11.88 14.56 15.18 15.47 15.91 17.00 26.89 6.96 9.16	<b>Travel Hoist – per metre</b> Lift Out / Lift-Hold-Launch Up to 7 m 7.1m to 9 m 9.1m to 10m 10.1m to 11m 11.1m to 12m 12.1m to 15m Over 15m <b>Launch only</b> Up to 7 m 7.1m to 9 m 9.1m to 10m 10.1m to 11m 11.1m to 12m 12.1m to 15m Over 15m Yard Movement per m Discounted lunchtime scrub -10% on above prices for commercial vessels
<b>Craen symudol</b> Fesul awr Lleiafswm	65.43 39.07	66.08 39.46	66.74 39.85	<b>Mobile crane</b> Per hour Minimum charge
<b>Storio</b> Storio ar y lan i berchennog doc fesul medr fesul dydd Storio ar y lan i ymwelwyr fesul medr fesul dydd	.23 .33	.24 .34	.24 .36	<b>Storage</b> Annual contract holders per m per day Non-Annual contract holders per m per day
<b>Storio</b> crud/ôl cerbyd i ymwelwyr fesul dydd	1.31	1.32	1.33	<b>Storage</b> of cradles/trailers for non contract holders per day
<b>Llogi crud Hafan fesul dydd</b>	1.31	1.32	1.33	<b>Hire of marina cradle/boat stands per day</b>
<b>Llafur ategu</b>	34.18	34.52	34.87	<b>Shoring labour charge</b>

## Ffioedd - Hafan Pwllheli - Fees – 2016/17

<b>Prisiau yn eithrio TAW</b>	<b>2014/15 £</b>	<b>2015/16 £</b>	<b>2016/17 £</b>	<b>Prices exclude VAT</b>
<b>Llithriad - Uchafrif 80 cwch fesul cwmni - Uchafrif 6 cwmni</b> Defnydd masnachol yn cynnwys cofrestru	2849.50	2878.00	2935.56	<b>Slipway – Maximum 80 vessels per company - Maximum 6 companies</b> Commercial use including registration fee
<b>Trydan ar y lan</b> Perchennog doc blynyddol Defnydd dyddiol ( <b>cynnwys TAW</b> ) Peiriant pŵer dros dro Unedau ar gost fel arddangos yn y dderbynfa	Cynwysedig Included 2.65	Cynwysedig Included 2.68	Cynwysedig Included 2.81	<b>Electricity onshore</b> Annual contract holders Daily charge ( <b>inc VAT</b> ) Intermittent use for power tools Units used at unitary rates as displayed in reception.
<b>Hwyllo Sych - Cwch Sbord</b> 1tf o Fai - 30 o Dachwedd fesul Mansio a chodi: 1720/707/J80/Sonata ayb	856.88 55.67	865.45 56.23	865.45 58.47	<b>Dry Sailing – Sports Boat</b> 1 <sup>st</sup> May - 31 <sup>st</sup> October per launch and lift sailing sports boat:1720/707/J80/Sonata etc
<b>Tir yr Hafan fesul m<sup>2</sup></b>	5.63	5.69	5.80	<b>Land rental per m<sup>2</sup></b>
<b>Wal y Marina tros nos fesul medr</b> (cychod pysgota masnachol yn unig)	2.17	2.19	2.25	<b>Marina wall berthing per m per night</b> (commercial fishing vessels only)
<b>Ffioedd glanio pysgod</b>	2.17	2.19	2.25	<b>Fish landing fees</b>
<b>Disel fesul lityr – cychod pleser</b>	Pris y farchnad Market price	Pris y farchnad Market price	Pris y farchnad Market price	<b>Diesel per litre- leisure craft</b>
<b>Disel Coch fesul lityr</b> Defnyddwyr Masnachol Cofrestredig Pris Masnach +	+0.02c	+0.02c	+0.02c	<b>Red Diesel per litre</b> Registered/approved Commercial Users Trade Price +

## Ffioedd - Hafan Pwllheli - Fees – 2016/17

Ffioedd angorfa pontŵn i berchennog angorfa newydd 01/04/2016 ymlaen (**eithrio TAW**) prisiau 2015 mewn braced  
*Pontoon Berthing Charges Applicable to New Bertholders from 01/04/2016 (excluding VAT) 2015 prices in brackets*

Ardal/Area	Maint safle/ Berth size	Mewn un rhandaliad / Paid in one instalment	Mewn 10 rhandaliad / Paid in 10 Instalments +5%	Mewn un rhandaliad gyda thrydan Paid in one instalment with electricity	Mewn 10 rhandaliad gyda thrydan Paid in 10 instalments with electricity +5%
<b>Coch/Red (16)</b>	<b>I fyny i 6m Up to 6m</b>	<b>(£1775.00) £1775.00</b>	<b>(£1916.97) £1863.76</b>	<b>Ddim ar gael Not available</b>	<b>Ddim ar gael Not available</b>
<b>Glas/Blue (39)</b>	<b>I fyny i 8m Up to 8m</b>	<b>(£2366.69) £2366.69</b>	<b>(£2555.98) £2485.03</b>	<b>Ddim ar gael Not available</b>	<b>Ddim ar gael Not available</b>
<b>Gwyrdd/Green (154)</b>	<b>I fyny i 10m Up to 10m</b>	<b>(£2957.65) £2957.65</b>	<b>(£3194.97) £3105.53</b>	<b>(3090.91) 139.92 +5% 3097.57</b>	<b>(3338.14) 139.92 +5% 3252.45</b>
<b>Efydd/Bronze (112)</b>	<b>I fyny i 12m Up to 12m</b>	<b>(£3550.05) £3585.55 +1%</b>	<b>(£3803.66) £3764.83 +5%</b>	<b>(3709.20) 167.11 +5% 3752.66 +1%</b>	<b>(4005.77) 167.11 +5% 3940.29 +1%</b>
<b>Arian/Silver (56)</b>	<b>I fyny i 13.5m Up to 13.5m</b>	<b>(£3993.80) £4033.74 +1%</b>	<b>(£4313.22) £4235.43 +5%</b>	<b>(4172.73) 187.88 +5% 4221.62 +1%</b>	<b>(4506.49) 187.88 +5% 4432.70 +1%</b>
<b>Aur/Gold (26)</b>	<b>I fyny i 15m Up to 15m</b>	<b>(£4437.55) £4481.93 +1%</b>	<b>(£4792.46) £4706.03 +5%</b>	<b>(4636.37) 208.75 +5% 4690.68 +1%</b>	<b>(5006.52) 208.75 +5% 4925.21 +1%</b>
<b>Platinwm/Platinum (7)</b>	<b>Hammerhead</b>	<b>(£5916.5167) £5975.68 +1%</b>	<b>(£6389.98) £6274.46 +5%</b>	<b>(£6181.83) £278.59 +5% £6254.27 +1%</b>	<b>(£6676.28) £278.59 +5% £6566.98 +1%</b>

**Uned Morwrol a Pharciau Gwledig – Maritime and Country Parks Unit**

**FFIOEDD A THALIADAU CYFFREDINOL / GENERAL FEES AND CHARGES**

<b>Prisiau Eithrio TAW</b>	<b>2014-15</b>	<b>2015-16 (2.0%)</b>	<b>2016-17 (2.0%)</b>	<b>Prices exclude VAT</b>
Rhaff cysylltiol a bwi codi	<b>25.00</b>	<b>Diddymu</b>	<b>Diddymu</b>	Link line and pickup buoy
Gosod rhaffau angorfeydd	<b>35.00</b>	<b>Diddymu</b>	<b>Diddymu</b>	Fitting of mooring lines
Ffi Cytundeb Angorfa Trefor (fesul llestr)	<b>39.27</b>	<b>40.06</b>	<b>40.86</b>	Trefor Mooring Fee Agreement (per vessel)
Trwydded Cychwyr - Pwer {Dim TAW}	<b>55.00</b>	<b>56.10</b>	<b>57.22</b>	Boatman's Licence - Power { No VAT }
Trwydded Perchennog - Pwer {Dim TAW}	<b>65.00</b>	<b>66.30</b>	<b>67.63</b>	Proprietor's Licence - Power { No VAT }

**Ffioedd Lansio a Chofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol**  
**Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees**

**01/04/2016 – 31/03/2017**

**Eithrio TAW / Exclusive of VAT**

	<b>Ffi Adnewyddiad (Trwyddedau Bach)</b>	2016/17	<b>Renewal Fees (Small Permits)</b>
	Ail-cofrestru Blynyddol	£25.00	Annual Re-registration
	<b>Ceisiadau Llestr Newydd (Trwyddedau Mawr a Bach)</b>		<b>New Vessel Applications (Large and Small Permits)</b>
	Cofrestru Blynyddol	£33.33	Annual Registration
	<b>Ffi Lansio</b>		<b>Launching Fees</b>
	Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinnol Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan ( <b>yn cynnwys parcio</b> )	£8.33 £10.83	Daily launch – General Slipways/Beaches Daily launch – Morfa Bychan Beach ( <b>includes parking</b> )
Tud. 19	Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth) <b><u>Cynnwys Ffi Cofrestru</u></b>	£116.67	Annual Launching Permits (1 April – 31 March) <b><u>Inclusive of Registration Fee</u></b>
	<p align="center"><b>Only Postal Applications are accepted at the Main Council Offices in Pwllheli.</b>  <b>In Person applications will be processed on the day at any of the Council's harbour offices, or during the summer season at the main resort beaches.</b></p>		
	<b>Trosglwyddo / Ailddodiad</b>		<b>Transfer / Replacement</b>
	Ceisiadau drwy'r post yn unig i <b><u>Swyddfa Forwrol y Cyngor yn Mhwllheli</u></b>	£33.33	Postal application only to the <b><u>Council Maritime Office in Pwllheli</u></b>
	<b>Cychod llai na 10 HP</b>		<b>Vessels under 10 HP</b>
	Ffi Cofrestru Blynyddol – <b><u>Ceisiadau Mewn Person yn Unig</u></b>  Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio	£20.83	Annual Registration Fee – <b><u>In Person Application Only</u></b>  <b>At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection</b>

## Chwyddiant ar Incwm 2016-17 - Cyllideb Rhan 1

	Gwariant	Gwariant	Chwyddiant Gwariant	Gwariant Terf	Gwahaniaeth mewn £	Gwahaniaeth mewn %	Cynnydd £ Targed	Targed Terfynol
	£	£	£	£	£	%	£	£
Hafan	573,760	576,800	3,800	580,600	6,840	1.19%	-15,610	-1,331,600
Traethau	359,260	358,940	2,600	361,540	2,280	0.63%	-1,320	-209,950
Cyfanswm Harbyrau	273,070	272,780	2,210	274,990	1,920	0.70%	-1,480	-239,640
Doc Fic	139,060	138,500	750	139,250	190	0.14%	-290	-217,380
Padarn	165,260	165,510	570	166,080	820	0.50%	-790	-155,780
Glynllifon	70,160	70,460	620	71,080	920	1.31%	-760	-64,370